# PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU

Dydd Iau, 10 Mehefin 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A.G. Morgan (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, K.V. Broom, G.H. John, J.K. Howell, C. Jones, K. Madge, J.G. Prosser, D.E. Williams a/ac J.S. Edmunds

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr E. Dole, Arweinydd y Cyngor
Y Cynghorwyr L.M. Stephens, Dirprwy Arweinydd y Cyngor
Y Cynghorwyr D.M. Jenkins, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau
Y Cynghorwyr C.A. Davies, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Cymunedau a Materion Gwledig

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 11.40 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd W.R.A. Davies.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA**

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| K. Madge | 4 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2020-21; | Ei ferch yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. |

**3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

**4. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2020/21**

Cyflwynodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Adroddiad Monitro Cyllideb Gorfforaethol yr Awdurdod ac adroddiadau adrannol y Prif Weithredwr a'r Gwasanaethau Corfforaethol fel yr oeddent ar 28 Chwefror 2021 mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2020/21. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys atodiad a oedd yn rhoi manylion Monitro Arbedion 2020-21.
Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod aelodau o staff ychwanegol wedi'u penodi yn y ganolfan alwadau oherwydd y cynnydd yn nifer y galwadau a dderbyniwyd o ganlyniad i'r pandemig Covid, er mwyn helpu i leihau amseroedd aros galwyr.
- Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai unrhyw danwariant sydd ar gael yn cael ei wario'n gyntaf ar risgiau corfforaethol a nodwyd. Atgoffwyd yr aelodau hefyd, er bod yr Awdurdod wedi neilltuo cronfa fach wrth gefn ar gyfer argyfyngau Brexit, na fu unrhyw alwad ar y gyllideb honno eto.
- Eglurwyd bod y cyfeiriad at gostau atgyweirio i eiddo 'newydd' yn ymwneud â'r ffaith nad oedd yr eiddo hyn newydd eu hadeiladu ond yn hytrach yn eiddo a allai fod wedi'u hadeiladu ers sawl blwyddyn ond a oedd newydd eu caffael gan yr Awdurdod.
- Talwyd teyrnged i'r holl staff a oedd wedi mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol yn ystod y pandemig presennol.
- O ran y gwariant o £700,000 a ragwelwyd ar gyfer adnewyddu'r system graidd Adnoddau Dynol/y Gyflogres, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y seilwaith presennol yn agosáu at ddiwedd ei oes ac felly roedd angen darparu cyllid refeniw ar gyfer system newydd dros nifer o flynyddoedd.
- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch oedi wrth gyflawni gwaith o dan y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, dywedwyd wrth yr aelodau, mewn rhai amgylchiadau, fod hyn ar gais derbynnydd y grant am resymau diogelwch yn ystod y pandemig presennol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

**5. POLISI TELEDU CYLCH CYFYNG Y CYNGOR**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Bolisi Teledu Cylch Cyfyng arfaethedig y Cyngor a fyddai'n sicrhau bod trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith o ran defnydd a rheolaeth y Cyngor o'i systemau camerâu teledu cylch cyfyng mewn mannau cyhoeddus, yn unol â Deddf Diogelu Rhyddidau 2012. Yn ogystal, roedd yn bwysig ymgorffori dull cyson ledled y Cyngor mewn perthynas â holl agweddau ei systemau teledu cylch cyfyng.
Nodwyd bod cydweithio agos rhwng y Cyngor a'r Heddlu, lle bo'n briodol, o ran sicrhau bod gwybodaeth a data ar gael o deledu cylch cyfyng.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Polisi Teledu Cylch Cyfyng arfaethedig.**

**6. CYNLLUN LLESIANT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR GAERFYRDDIN - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-2021**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Barry Liles, Pennaeth Coleg Sir Gâr a Chadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a gyflwynodd Adroddiad Blynyddol 2020-21 Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Hwn oedd trydydd adroddiad blynyddol Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am y cynnydd a wnaed yn ystod 2020-21 ar ôl i'r cynllun gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2018.

Er y cydnabuwyd bod llai o weithgarwch wedi bod yn bosibl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd y pandemig, roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn nifer o feysydd. At hynny, roedd yr holl gysylltiadau pwysig a ddatblygwyd drwy waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyfrannu'n fawr ar adeg pan oedd gwaith ac ymateb amlasiantaethol yn hanfodol. Roedd y Bwrdd wedi adolygu ei

flaenoriaethau i ystyried cyfleoedd sy'n deillio o'r gwersi a ddysgwyd o brofiadau sefydliadau o ddelio â'r pandemig Coronafeirws a'r cydweithio gwell a oedd wedi datblygu o ganlyniad i hynny. Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth am y canlynol:

- Strwythur y BGC
- Gweithio Rhanbarthol
- Pum Ffordd o Weithio
- Adroddiadau cynnydd y Grŵp Cyflawni
- Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel
- Meysydd datblygu.

Soniodd Mr Liles am yr angen i'r BGC godi ymwybyddiaeth o'i weithgarwch a'i swyddogaethau gyda'r cyhoedd a chymunedau lleol.

Mewn ymateb i bryder ynghylch amseroedd ymateb ar y rhif ffôn 101 pan nad yw'n argyfwng, dywedodd yr Arweinydd y byddai'n codi'r mater mewn cyfarfod sydd i ddod gyda Chomisiynydd yr Heddlu.

Ar hynny, diolchodd y Cadeirydd i Mr Liles am ddod i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Blynyddol 2020-21 Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.**

## 7. COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS (PSB) SIR GÂR - RHAGFYR 2020, CHWEFROR A MAWRTH 2021

Cyflwynodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau gofnodion cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020, 2 Chwefror 2021 a 23 Mawrth 2021. Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol bod pwyllgor craffu llywodraeth leol dynodedig yn cael ei benodi i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn Sir Gaerfyrddin, penodwyd Pwyllgor Craffu – Polisi ac Adnoddau y Cyngor fel y Pwyllgor Craffu perthnasol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020, 2 Chwefror 2021 a 23 Mawrth 2021.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU 2020/21

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau am flwyddyn y cyngor 2020/21 a oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar waith y Pwyllgor gan gynnwys:-

- Trosolwg ar y Rhaglenni Gwaith Craffu
- Y materion allweddol a ystyriwyd
- Materion oedd wedi'u cyfeirio at y Bwrdd Gweithredol neu Bwyllgorau Craffu eraill neu ganddynt
- Presenoldeb yr Aelodau yn y cyfarfodydd

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r adroddiad.**

## 9. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad "peidio â chyflwyno".

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.**

**10. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai Adroddiad Blynyddol Strategaeth Ysgolion Digidol 2021 bellach yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 20 Hydref 2021.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn amodol ar yr uchod, dderbyn rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 21 Gorffennaf 2021.**

**11. COFNODION - 30AIN EBRILL 2021**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2021 yn gofnod cywir.**

| | |
|---|---|
| ___________________________ | ____________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |